Cynllun Cryno Cyngor Gwynedd 2018-2023:

Adolygiad 2020/21

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair Arweinydd y Cyngor	**3**
Cyflwyniad i'r Cynllun Cryno	**4**
Cynllun Cryno	**7**

Mae 'Cynllun Cryno Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2020/21' yn gyflwyniad i ddogfen ehangach sef 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2020/21'.

Mae'r 'Cynllun Cryno' yn rhoi darlun o'r prif faterion y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod 2020/21, tra fod y Cynllun yn ei gyfanrwydd hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth am holl ystod gwaith y Cyngor a'n cyllidebau.

Er mwyn gweld fersiynau electronig o unrhyw un o'r dogfennau yma, dilynwch y ddolen hon i wefan y Cyngor:

www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunYCyngor

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn iaith neu fformat arall
ffoniwch 01766 771000 neu anfonwch e-bost i cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am y Cynllun hwn cysylltwch â

Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor drwy ffonio 01766 771000;
Ymweld â'r wefan – www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunYCyngor;
Neu anfonwch e-bost i cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru

@CyngorGwyneddCouncil

@CyngorGwynedd

01766 771000

www.gwynedd.llyw.cymru

Rhagair Arweinydd y Cyngor

Dyma Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 wedi ei adolygu a'i addasu i adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd hyd yma ac i gynnwys blaenoriaethau newydd ar gyfer 2020/21. Fe gyfeiriaf at un neu ddau o'r newidiadau hynny.

Yn dilyn y cynnig i ddatgan argyfwng newid hinsawdd a fabwysiadwyd gan y Cyngor, sefydlwyd tasglu trawsadrannol i baratoi Cynllun Gweithredu i wella ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud ac i edrych am ffyrdd newydd ac arloesol o weithredu. Mae hwn yn faes sydd yn bryder sylweddol i'n dinasyddion a chydag oblygiadau pellgyrhaeddol i'n cymunedau.

Yn unol â'n huchelgais i flaenoriaethu yn y maes tai er mwyn gwneud gwahaniaeth i drigolion Gwynedd, fe sefydlwyd yr Adran Tai ac Eiddo. Byddwn yn ymestyn gwaith Strategaeth Tai Gwynedd drwy gyhoeddi Cynllun Gweithredu er mwyn darparu tai o safon mewn ymateb i'r angen. Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith hwn bydd y gronfa sy'n deillio o'r premiwm ail gartrefi yn rhoi sail cyllidol ychwanegol ac yn caniatáu i ni wireddu cynlluniau beiddgar ac arloesol. Yng nghyswllt hyn, rydym yn parhau i ddwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru i addasu deddfwriaeth i rwystro perchenogion rhag osgoi talu unrhyw dreth o gwbl. Mae'r cynnydd yn y nifer o ail-gartrefi yn ein cymunedau yn destun pryder sylweddol ac rydym yn ymchwilio i edrych a oes dulliau o fewn ein gallu i'w reoli.

Gofalu am ein pobl bregus, yn blant ac oedolion, yw un o gyfrifoldebau pwysicaf Y Cyngor. Mae'r pwysau ar y gwasanaethau hynny o ganlyniad i newidiadau cymdeithasol y tu hwnt i'n rheolaeth ni ac er i ni dderbyn gwell setliad ariannol y tro hwn gan Lywodraeth Cymru nid yw'n ddigon i lenwi'r bwlch cyllido sydd ei angen. Gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r gwaith creiddiol yma, ac i'r dyfodol yn cyllido cynghorau yn ddigonol fel y medrant ddarparu'r gwasanaethau y mae ein pobl ei wir angen. Mae ein hymrwymiad i wasanaethu pobl Gwynedd ac i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol, yn gadarn a di-ildio.

Rydw i a'r Dirprwy Arweinydd ar daith i ymweld a holl wardiau'r sir i ddod i adnabod ein cymunedau ac i glywed gan ein Cynghorwyr am yr hyn sydd yn bwysig iddyn nhw a'u hetholwyr. Rydym wedi cyrraedd yr hanner ffordd hyd yma ond mae wedi bod yn brofiad gwerth chweil i weld y rhannau hynny o'r sir nad sydd mor gyfarwydd i ni. Mae hefyd wedi bod yn gyfle i ni glywed am waith ein Cynghorwyr o bob plaid yn ei wardiau. Mawr yw fy ngwerthfawrogiad o'r wybodaeth drylwyr sydd ganddyn nhw o'u cymunedau, a'u gwaith diflino yn cefnogi yr holl amrywiol weithgareddau yn lleol. Dyma'r gwaith sydd yn digwydd o ddydd i ddydd nad sydd yn cael y sylw dyladwy, ac rwy'n diolch i'n Cynghorwyr oll am eu gwaith dros eu hetholwyr.

Cyn tewi, ein gweithlu oll sydd wrthi'n ddygn bob dydd yn sicrhau fod ein pobl yn derbyn y gwasanaeth y maen nhw angen, a hynny yn aml dan bwysau ac amgylchiadau anodd. Mawr ddiolch iddyn nhw am eu hymroddiad – mae clywed am waith ein gwasanaethau yn aml yn ysbrydoli.

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,
Arweinydd Cyngor Gwynedd.

Cyflwyniad i'r Cynllun Cryno

Cafodd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018. Fe'i lluniwyd ar sail tystiolaeth o fewn yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd ag adborth o ymgynghori efo cymunedau, aelodau etholedig, staff a phartneriaid.

Nod y Cynllun yw datgan beth yw'n blaenoriaethau ni fel Cyngor; beth fyddwn ni'n ei wneud ynghylch y blaenoriaethau hynny er mwyn ceisio gwella bywydau trigolion Gwynedd; a disgrifio ystod gwaith 'dydd i ddydd' y Cyngor.

Yn flynyddol ers 2018 rydym wedi bod yn adolygu cynnwys Cynllun y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i flaenoriaethu ein gwaith yn ôl anghenion pobl Gwynedd. Mae'r adolygiad hwn yn datgan beth fydd y Cyngor yn bwriadu ei gyflawni yn ystod 2020/21, sef y drydedd flwyddyn i mewn i'r cynllun pum mlynedd. Mae hefyd yn disodli'r fersiwn gyfredol o'r Cynllun.

Mae'r Cynllun Cryno hwn yn cynnwys gwybodaeth am y meysydd y credwn y mae angen i ni roi sylw penodol iddynt, sef ein Blaenoriaethau Gwella. Rydym wedyn yn rhoi disgrifiadau cryno o'r prosiectau sydd wedi eu llunio er mwyn ymateb iddynt. Mae gwybodaeth bellach am y rhaglenni, a holl waith dydd i ddydd y Cyngor i'w gweld yn y fersiwn gyflawn o Gynllun y Cyngor sydd i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon: www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunycyngor

Uchelgais y Cyngor yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a bod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r saith nod uchod yn amcanion llesiant. Mae'r Cynllun yn esbonio beth yr ydym eisoes yn ei wneud er mwyn gwireddu'r amcanion llesiant hyn.

Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ystyried y tymor hir, atal rhag digwydd, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed.

Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio, "Ffordd Gwynedd", sydd â'i ffocws ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Er bod camau eisoes wedi eu cymryd i ddangos sut yr ydym yn cyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf rydym yn cydnabod fod gwaith pellach angen ei wneud er mwyn tystiolaethu hyn a'r effaith a geir ar drigolion Gwynedd. O ganlyniad, byddwn yn edrych i gryfhau ein trefniadau herio ac adrodd ar berfformiad er mwyn amlygu ein cyfraniad i egwyddorion y Ddeddf.

Wrth i ni adolygu'r Cynllun hwn ar gyfer ei weithredu yn 2020/21 roedd angen i ni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar lesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol. Ceir rhestr isod o'r prif addasiadau a wnaed yn dilyn yr adolygiad:

> Mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 y dylid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod mae blaenoriaeth wella newydd wedi ei ychwanegu:
>
> - **Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd**
>
> Cwblhawyd y prosiectau canlynol neu maent wedi trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yn ystod 2019/20 :
>
> - **Cryfhau'r Arweinyddiaeth**
> - **Dalgylch y Berwyn, Y Bala**
> - **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd**
> - **Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion**
> - **Datblygu'r Arweinyddiaeth**

Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu o'r newydd:

- **Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd**
- **Cydweithio Meirionnydd**
- **Sicrhau Tegwch i Bawb**

Yn ogystal, mae'r prosiectau canlynol wedi newid:

- **Strategaeth Iaith Uwchradd** wedi newid ei deitl i **Hybu Defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc**

Fel y nodwyd eisoes, mae sefyllfa ariannol fregus Cymru a Phrydain yn gosod cryn her i ni fel Cyngor wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Mae cynnydd annigonol mewn grant gan y Llywodraeth yn golygu bod parhau i ddarparu nifer o wasanaethau yn anodd tu hwnt. Rhaid, felly, bod yn greadigol ac ystyried pob ffordd posib o ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl Gwynedd yn eu haeddu. Rydym yn datgan yn glir fodd bynnag y bydd unrhyw newid yn seiliedig ar un llinyn mesur yn unig – yr angen i weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu ac i wella lles ein trigolion i'r dyfodol.

Ers i'r Cynllun gwreiddiol gael ei fabwysiadu mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu eu Cynllun Llesiant yn ystod gwanwyn 2018. Mae'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau a amlygir o fewn y Cynllun Llesiant yn gyson â'r rhai sydd o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Mae Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar y gwasanaethau dydd i ddydd a'r materion y mae'r Cyngor wedi eu blaenoriaethu tra bydd y Cynllun Llesiant yn canolbwyntio ar y meysydd lle y teimlir y gall sefydliadau cyhoeddus wneud mwy o wahaniaeth i lesiant pobl yr ardal trwy weithio ar y cyd.

Cynllun Cryno

Ein uchelgais yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn...

Amcanion Llesiant

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
- Cael manteisio ar harddwch naturiol y sir

Byddwn yn gwneud hyn drwy arloesi a bod ar flaen y gad ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, gan ganolbwyntio ar...

Blaenoriaethau Gwella

- Greu economi hyfyw a ffyniannus
- Roi cyfle i bob disgybl gael y cyfle i gyflawni ei botensial
- Leihau anghydraddoldeb o fewn y sir
- Sicrhau mynediad at gartref addas
- Helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant
- Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud
- Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

...fydd yn cael ei gynnal gan holl waith dydd i ddydd Adrannau'r Cyngor.

Blaenoriaeth Gwella 1
Creu economi hyfyw a ffyniannus.

Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod yna swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru
Adran Economi a Chymuned

Mae diffyg twf yn wendid yn economi Gogledd Cymru gyfan, a'r gogledd orllewin yn arbennig. Er mwyn ceisio gwyrdroi'r sefyllfa daeth chwe sir y gogledd, a rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau addysg y rhanbarth a'r sector breifat, ynghyd i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Prif gynllun y Bwrdd yw **'Cais Twf Gogledd Cymru'** ac yn Nhachwedd 2019 arwyddwyd cytundeb cychwynnol rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r Cais Twf. Bydd y cais yn arwain at £945m o fuddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd dros y pymtheg mlynedd nesaf gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y Gogledd.

Fel aelod o'r Bwrdd Uchelgais, ein nod fel Cyngor yw sicrhau y bydd pobl a busnesau Gwynedd yn elwa i'r eithaf o'r buddsoddiad ariannol hwn, yn enwedig mewn cyfnod pan fydd angen ymateb i sgil-effeithiau Brexit.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i gyfrannu at raglen waith y Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys gwella argaeledd bandeang cyflym, datblygu safle Atomfa Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Gwledig yng Nglynllifon. Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru sy'n cael ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru i adnabod prif raglenni buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



2. Cadw'r Budd yn Lleol
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn **aros yn lleol.**

Rydym eisoes wedi cyflwyno trefniadau newydd i geisio prynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon, a chymerwyd camau er mwyn hwyluso gallu busnesau i gystadlu am gytundebau. Yn 2018/19, fe lwyddwyd i gynyddu'r canran o wariant lleol i 63% o'i gymharu â 62% y flwyddyn flaenorol.

I'r dyfodol byddwn yn ymgysylltu gyda busnesau lleol er mwyn asesu beth fyddai'n gwneud cyfleon caffael yn fwy deniadol iddynt a pha gefnogaeth pellach sydd eu hangen arnynt. Byddwn hefyd yn adolygu ein trefniadau caffael er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd rhwng cadw'r budd yn lleol a chael gwerth am arian yn un priodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



3. Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £28,500 neu fwy)
Adran Economi a Chymuned

Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol yn y Sir yr isaf yng Nghymru yn 2019 (£459 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£423). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.

Mae'r prosiect **Creu Swyddi Gwerth Uchel** eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, megis sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, a chynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau sydd wedi eu disgrifio uchod, ac hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis datblygu cynllun gan Fwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru i baratoi Safle Atomfa Trawsfynydd er mwyn denu buddsoddiad i greu ynni carbon isel. Cynlluniau o'r fath fydd yn sicrhau parhad swyddi gwerth uchel yn lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

4. Arloesi Gwynedd Wledig
Adran Economi a Chymuned

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 79% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran **cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig.**

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. Rydym hefyd yn rhan o raglen ARFOR, sef buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i greu mwy a gwell swyddi mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru ble mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i weithredu fel rhan o raglen ARFOR, i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

5. Hybu Canol Tref
Adran Economi a Chymuned

Mae **canol trefi** bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol.

Mae "stryd fawr" nifer o drefi Gwynedd angen cefnogaeth i sicrhau eu bod yn ffynnu er mwyn cynnal a chreu gwaith a darparu'r ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr.

Rydym eisoes wedi bod yn cydweithio â busnesau ym Mangor a Chaernarfon i hyrwyddo'r Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) ac i ddenu adnoddau Rhaglen Adfywio Rhanbarthol Llywodaeth Cymru. Buom yn llwyddiannus yn sefydlu rhaglen fenthyg i uwchraddio adeiladau segur yn ardaloedd Caernarfon, Bangor, Bethesda a Phenygroes, ac yn cydweithio â phartneriaid yn Harlech er mwyn sefydlu rhaglen i adfywio canol y dref yno hefyd.

I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith uchod, ac yn paratoi cynlluniau ar gyfer 13 o ddalgylchoedd yng Ngwynedd a hynny ar sail yr hyn sydd yn bwysig i drigolion o fewn y cymunedau hyn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



6. Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith
Adran Economi a Chymuned

Yn ystod 2019-20 cyflwynwyd enwebiad llawn o Wynedd i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac i Unesco ar gyfer dynodiad **Safle Treftadaeth y Byd.** Mae'r enwebiad yn rhoi cyfle i ni gydnabod cyfraniad y diwydiant llechi traddodiadol ar blatfform rhyngwladol, ac i ddathlu a gwarchod y diwylliant Cymraeg sydd ynghlwm â'r ardaloedd hynny.

Rydym eisoes wedi defnyddio dynodiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr. Mae £1m o adnoddau ychwanegol wedi eu denu i'r Sir trwy'r Gronfa Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd a Pharc Cenedlaethol Eryri trwy brosiect LleCHI.

I'r dyfodol byddwn yn cydweithio gyda'r cymunedau llechi, trwy brosiect LleCHI, i greu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn gwella gwedd a golwg cymunedau, gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr, ac yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, iaith a diwylliant.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

Llun: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

7. Elwa o Dwristiaeth
Adran Economi a Chymuned

Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd ac mae'n gyflogwr pwysig. Ond mae'r cynnydd mewn nifer ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol at y pwysau sydd ar isadeiledd cyrchfannau'r sir; cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

Rydym eisoes wedi ymgynghori â chynrychiolwyr o'r sector ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn edrych ar sut y gallwn ddenu incwm i gefnogi'r diwydiant, a beth yw'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

I'r dyfodol byddwn yn edrych i barhau i gydweithio gyda'r diwydiant twristiaeth a'n partneriaid i greu Cynllun Rheoli Twristiaeth newydd i Wynedd fydd yn ystyried y ffordd orau o gael y budd mwyaf i'r diwydiant ac i drigolion Gwynedd. Drwy wneud hyn, byddwn yn ceisio gwella cyfraniad y sector i gymunedau ac economi Gwynedd, gwella darpariaeth cyrchfannau'r Sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr a phobl Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

8. Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu
Adran Economi a Chymuned

Mae'n gyfnod ansicr i fusnesau ar hyn o bryd o ganlyniad i Brexit a newidiadau mewn trefniadau masnachu a chystadlu. Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o helpu mentrau lleol i addasu ac ymateb i'r her ac rydym eisoes wedi chwarae rhan rhagweithiol yn y trafodaethau ynglŷn â dyfodol cymorth busnes yng Ngogledd Cymru a dyfodol arian i gefnogi'r economi wedi Brexit.

Mae busnesau'r sir hefyd yn ymwneud â nifer o Adrannau'r Cyngor neu'n derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Rydym eisoes wedi ymgynghori â busnesau'r Sir i weld a yw'r cymorth a'r gefnogaeth y maent yn ei gael gan y Cyngor y gorau y gall fod.

I'r dyfodol, byddwn yn ymateb i farn busnesau am y cymorth a gânt gan y Cyngor ac yn sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn ystyried sut gallent gynnig cymorth i gefnogi busnesau. Byddwn hefyd yn annog busnesau Gwynedd i wneud y gorau o'r cymorth sydd ar gael gan eraill, ac i leisio anghenion busnesau Gwynedd yn rymus wrth drafod gyda'n partneriaid, yn enwedig yng ngoleuni Brexit.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

9. Cynllun Prentisiaethau
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion datblygu sgiliau hanfodol yng Nghymru a'r economi ehangach, adnabod y meysydd blaenoriaeth a sut y bydd prentisiaethau yn rhan annatod o wireddu hynny.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod meysydd priodol ar gyfer sefydlu prentisiaethau ac wedi clustnodi cyllid er mwyn gwireddu'r cynlluniau hynny am y ddwy flynedd nesaf. Roedd 17 prentis wedi eu penodi i weithio yn y Cyngor erbyn diwedd Rhagfyr 2019.

I'r dyfodol byddwn yn symud ymlaen i benodi mwy o brentisiaid mewn meysydd blaenoriaeth yn ystod 2020/21 gan ystyried ymarferoldeb parhad y Cynllun tu hwnt i'r ymrwymiad presennol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

Blaenoriaeth Gwella 2
Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial.

Os am fanteisio ar unrhyw gyfleoedd fydd yn codi, mae'n allweddol fod gan Wynedd gyfundrefn addysg gynaliadwy o ansawdd, sy'n rhoi'r sgiliau i'n trigolion fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Darpariaeth Ôl-16, Dalgylch Bangor, Dalgylch Treferthyr (Cricieth), Cydweithio Meirionnydd
Adran Addysg

Oherwydd fod nifer o'n hysgolion yn hen ac yn anaddas i gyfarch anghenion dysgu ac addysgu i'r dyfodol, a bod heriau ynghlwm â darpariaeth addysg uwchradd ac ôl-16 yn y sir, rydym yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael eu haddysgu yn yr amgylchedd ddysgu gorau posib.

Rydym wedi cwblhau'r gwaith o sefydlu Ysgol Godre'r Berwyn, yn Nalgylch y Bala. Agorodd yr ysgol i ddisgyblion 3-19 oed ym mis Medi 2019, ynghyd â gwasanaethau i'r gymuned lleol megis llyfrgell a theatr. Rydym wedi cychwyn ar y gwaith i wella'r ddarpariaeth yn **Nalgylch Bangor a Dalgylch Treferthyr.** Rydym hefyd wedi bod yn **Cydweithio ag ysgolion uwchradd Meirionnydd** i edrych ar y drefn o ddarparu addysg uwchradd i'r ardal, ac yn gwneud gwaith maes â rhanddeiliaid allweddol i ystyried y **Ddarpariaeth Ôl-16** gyfredol ar draws y sir.

Byddwn yn anelu i gwblhau Ysgol y Garnedd ym Mangor erbyn Medi 2020, Ysgol y Faenol ym Mangor erbyn Ionawr 2021 ac Ysgol Treferthyr yng Nghricieth erbyn Medi 2021. Byddwn yn parhau i gydweithio er mwyn canfod datrysiadau creadigol i'r ddarpariaeth uwchradd ym Meirionnydd ac yn llunio adroddiad ar y ddarpariaeth ôl-16 gyfredol a fydd yn sail i ddatblygiadau i'r dyfodol.



Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

2. Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
Adran Addysg

Mae gwaith eisoes wedi'i gyflawni i drawsnewid y gwasanaeth **anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad,** er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial.

Mae'r gwasanaeth bellach yn ddarpariaeth dros Wynedd a Môn, ac mae'n canolbwyntio ar arfogi gweithlu ein hysgolion i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc mwyaf bregus i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu potensial.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwasanaeth mewn rhai meysydd megis y blynyddoedd cynnar, ôl-16 ac ysgolion arbennig. Byddwn hefyd yn adeiladu ar waith partneriaethol presennol rhwng ein hysgolion arbennig ac ysgolion prif lif i wella profiadau dysgu plant ag anghenion dwys a chymhleth.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Blaenoriaeth Gwella 3
Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

Rhaid cydnabod hefyd, ar hyn o bryd, nad yw pob un yn ein cymdeithas yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial. Yn sicr, fel ym mhob sir yng Nghymru, mae yna anghydraddoldeb yn bodoli o fewn y sir ar wahanol lefelau, gyda'r anghydraddoldeb a grëir gan dlodi yn sylweddol o ran y niwed sy'n cael ei greu.

Mae'n amlwg fod tlodi hefyd yn gallu cael effaith andwyol sylweddol ar lesiant, ac yn arbennig felly y dyfodol a gynigir i blant. Tra bod gennym wasanaethau sy'n ceisio meirioli effeithiau tlodi, mae'n ddyletswydd arnom i ystyried a oes mwy y gallwn ei wneud.

Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i gynnal gwasanaethau o safon ar gyfer edrych ar ôl y plant hynny sy'n canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae angen i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Yn y pen draw, nid oes unrhyw un ohonynt eisiau bod yn y fath sefyllfa.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith

Adran Economi a Chymuned

Mae nifer sylweddol o drigolion ym methu â chyflawni eu llawn botensial gan eu bod wedi eu **tangyflogi neu wedi eu heithrio o gyflogaeth.** Mae bod y tu allan i'r byd gwaith yn lleihau cyfoeth trigolion a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus ac mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Rydym eisoes wedi bod yn gweithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau uchod ac yn datblygu cynlluniau pellach megis cydweithio yn agos gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru a chydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlyniad ein gwasanaethau.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



2. Cefnogi Llesiant Pobl
Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ar gyfer delio gyda heriau bywyd, ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyrraethau er mwyn cefnogi pobl i wynebu a cheisio goresgyn eu problemau. Gall y rhain amrywio o anawsterau magu teulu, i gam-ddefnyddio sylweddau, i effeithiau unigrwydd.

Rydym wedi tynnu gwasanaethau ar draws y Cyngor ynghyd i siapio'r **Rhaglen Cefnogi Pobl** a hyd yma rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar adnabod rhwystrau a gwella ein dealltwriaeth o sut mae ein gwasanaethau yn cael eu darparu ar hyn o bryd.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i wneud gwaith mapio er mwyn deall anghenion mewn cymunedau ac ardaloedd penodol, edrych a yw cynlluniau grantiau yn cael eu defnyddio i'r pwrpas fwyaf effeithiol, ac yn parhau i adeiladu ar Raglen Plant yn Gyntaf yn ardal Maesgeirchen.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

3. Merched mewn Arweinyddiaeth
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Byddwn yn adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn flaengar yn annog **Merched Mewn Arweinyddiaeth** ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor.

Mae Grŵp Prosiect mewnol wedi cynnal ymgynghoriad â staff yn ystod 2019/20 ac i'r dyfodol byddwn yn gweithredu rhaglen waith sy'n cynnwys cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol, a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



4. Sicrhau Tegwch i Bawb
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn wneud rhaid i ni yn gyntaf adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor. Ein bwriad felly yw cynnal ymchwiliad trylwyr o farn pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchodedig (fel maent yn cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010) am y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu cynnig.

Bydd yr ymgysylltiad yma yn digwydd yn 2020-21 fel rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24. Byddwn yn creu Cynllun Gweithredu pellach yn seiliedig ar y dystiolaeth y byddwn yn ei dderbyn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Blaenoriaeth Gwella 4
Mynediad at gartrefi addas.

Mae gan y maes tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor gyflawni ein huchelgais. Gwyddwn fod cael cartref sydd yn addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sy'n gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu cynigion tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd y gall pobl fyw ynddynt trwy gydol eu hoes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen.

Fel Awdurdod Lleol, byddwn yn ymyrryd i annog ystod o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Law yn llaw â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant cymunedau'r sir.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24
Adran Tai ac Eiddo

Mae'r galw am dai cymdeithasol a fforddiadwy i gartrefu trigolion Gwynedd ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad sydd ar gael. Mewn ymateb i'r her yma rydym eisoes wedi llunio Strategaeth Dai sydd yn anelu i wneud y gorau o'n cyflenwad o dai yng Ngwynedd, i wella eu safon yn ogystal â gwella mynediad i dai drwy gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl i'w galluogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau.

Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu yn ystod 2019/20 ar gyfer gweithredu'r Strategaeth hon, ac i'r dyfodol byddwn yn datblygu'r prosiectau penodol sydd yn y cynllun hwnnw. Byddwn hefyd yn ymchwilio i'n gallu ni fel Cyngor i gwrdd â'r her o ddarparu cartrefi addas i'n trigolion yng Ngwynedd.

Nid yw'r ffaith fod 10% o stoc dai y sir yn ail gartrefi yn helpu'r sefyllfa o brinder cartrefi. Ers Ebrill 2018 mae perchnogion ail gartrefi yn talu 50% o bremiwm ar eu Treth Gyngor, ond mae rhai perchnogion yn defnyddio'r ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth trethiant bresennol i symud y tŷ i'r gyfundrefn Dreth Busnes sy'n golygu bod y Cyngor yn colli cyfle i ddefnyddio'r premiwm i geisio gwneud rhywbeth am y lleihad yn y cyflenwad. Rydym yn arwain ar y gwaith o dynnu sylw'r Llywodraeth at y broblem yma ac yn pwyso am newid deddfwriaeth er mwyn sicrhau nad yw hynny yn digwydd yn y dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Blaenoriaeth Gwella 5
Byw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Un nodwedd unigryw sydd gan Wynedd fel sir hefyd yw ei chymreictod. Mae Cyngor Gwynedd ei hun wedi ymrwymo i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni fydd hynny ynddo'i hun yn ddigonol os ydym am gadw natur unigryw'r sir yn fyw.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

Llwyddwyd hyd yma i adolygu anghenion iaith pob swydd ac i asesu gallu ieithyddol 40% o'n swyddogion yn erbyn y gofynion hynny. Cefnogwyd hyn oll gan raglen ddysgu a gloywi iaith.

I'r dyfodol byddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda gweddill gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig rhai rheng flaen, i gwblhau'r asesiad ac i ddatblygu sgiliau staff newydd a chyfredol gan achub ar gyfleon newydd i sicrhau ein bod yn cynnig pob agwedd ar ein gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

2. Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau cyhoeddus eraill, drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, i sicrhau ein bod yn arloesi yn narpariaeth **Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus** yn y sir.

I'r dyfodol byddwn yn cyfrannu at raglen waith fydd yn tynnu Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a Chyngor Môn ynghŷd i sefydlu trefniadau gweithio mewn sefyllfa ddwyieithog ar gyfer Timau Adnoddau Cymunedol, sef y timau fydd yn darparu gofal a chefnogaeth i'r bobl sydd ei angen.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

3. Busnesau Gwynedd i Ddefnyddio'r Gymraeg
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae gan y Cyngor gyswllt uniongyrchol efo busnesau Gwynedd er mwyn annog **busnesau Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg.** Mae swyddogion Hunaniaith yn ogystal â swyddogion o fewn yr Adran Economi a Chymuned yn annog busnesau i gynyddu'r defnydd o'r iaith trwy eu gwaith yn y cymunedau.

I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith hwn, ac hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allanol megis Cymraeg Byd Busnes a Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau bod pawb efo'i gilydd yn cynllunio'r ddarpariaeth y mae busnesau Gwynedd ei angen.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

4. Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc
Adran Addysg

Er mwyn hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol, rydym wedi arwain ar y Siarter Iaith Gymraeg er mwyn dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac mae galw wedi bod i sicrhau dilyniant iddi yn yr ysgolion uwchradd.

Rydym wedi bod yn cydweithio ag ysgolion uwchradd i lunio cynlluniau gweithredu unigol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, ac wedi rhoi sylw penodol i gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5. Byddwn, i'r dyfodol, yn parhau i gydweithio ar y materion hyn ac yn cefnogi'n ysgolion i gwblhau a gweithredu eu cynlluniau.

Byddwn hefyd yn cefnogi ysgolion i weithredu'n unol â gofynion cenedlaethol newydd Fframwaith Siarter Iaith Llywodraeth Cymru sy'n dod i rym yn ystod 2020-21.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Blaenoriaeth Gwella 6
Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant.

Nodwedd arall o Wynedd yw'r ffaith fod gennym ganran uwch o bobl hŷn yn byw yma nag mewn nifer o ardaloedd eraill yng Nghymru. Tra bod y Cyngor wedi bod yn dda iawn am ddarparu cefnogaeth i'r bobl hynny o bob oed sydd angen gofal, mae'r cynnydd yn niferoedd y bobl hŷn, y cyfyngiadau ariannol a thrafferthion darganfod gweithlu i fedru parhau i ddarparu'r gwasanaethau yma yn golygu bod yn rhaid i ni feddwl am atebion gwahanol.

Y gwir amdani yw bod nifer fawr o bobl hŷn am barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant, sydd yn aml yn golygu pethau gwahanol i wahanol unigolion. Mae angen i ni newid ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth.

Ein gweledigaeth yw bod ein gwasanaethau cymunedol yn cael eu trawsnewid fel bod cymorth a chefnogaeth gynnar i bobl yn cael ei ddarparu yn eu cartrefi ac o fewn eu cymunedau eu hunain. Trwy'r dull yma fe welwn well canlyniadau i unigolion, a bydd y galw am dderbyniadau i'r ysbyty a darpariaeth gofal yn lleihau dros amser. Mae cynllun Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach' yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon mae'n rhaid i ni barhau i drawsnewid gwasanaethau gofal.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae anghenion gofal yn y sir yn newid, ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i sicrhau mynediad syml ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n cefnogi yr hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd dull o weithio sy'n rhoi mwy o bwyslais ar iechyd a llesiant a gwaith ataliol yn sicrhau gwell deilliannau i unigolion, yn eu galluogi i fyw'n annibynnol cyn hired a phosib ac yn lleihau'r angen am ofal dwys.

Rydym wedi sefydlu 5 Tîm Ardal Lleol sy'n darparu gwasanaeth di-dor ac yn adeiladu ar gryfderau'r unigolyn a'r gymuned. Maent hefyd yn sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. Yn 2020/21, byddwn yn gweithio i adnabod a dileu rhwystrau pellach i weithio'n integredig, megis drwy wella a llyfnhau'r broses cyfeirio at wasanaethau a chryfhau trefniadau rhannu gwybodaeth.

Rydym wedi ymestyn peilot ar gyfer ffordd newydd o ddarparu gofal cartref ar draws y sir, ac hefyd wedi gweithio i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth yn ein cartrefi preswyl gan gynnwys agor Unedau Dementia yn Nhywyn a Bangor.

I'r dyfodol, byddwn yn paratoi i roi'r ffordd newydd o ddarparu gofal cartref ar waith erbyn haf 2020 ac yn gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth dementia, tai gofal ychwanegol, gofal anghenion corfforol dwys a llety addas i unigolion ag anableddau dysgu. Byddwn hefyd yn gweithio ar ddatblygu'r gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael yn y sir gyda ffocws ar ymyrraeth a chefnogaeth buan.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



2. Gwydnwch Cymunedol
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Er mwyn helpu pobl i gadw cysylltiadau, lleihau unigrwydd a chynnal iechyd meddyliol a chorfforol, mae angen mynd ymhellach na darparu gwasanaethau cymorth yn y cartref neu ofal preswyl. Rydym wedi bod yn ysgogi a chefnogi **cymunedau Gwynedd i fod yn fwy gwydn** er mwyn darganfod datrysiadau ataliol sy'n cynyddu opsiynau gofal lleol i bobl.

Rydym wedi mapio gwasanaethau a grwpiau sy'n bodoli mewn cymunedau er mwyn adnabod bylchau, a chysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda gwasanaethau, yn ogystal â hybu mentrau cymunedol. Mae adnoddau newydd wedi'u creu megis Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol Dyffryn Nantlle a Shed Ddynion Pwllheli.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i adnabod bylchau mewn darpariaeth yn ein cymunedau, gyda'r nod o gytuno ar flaenoriaethau lleol gyda'r cymunedau hynny. Erbyn Mawrth 2021, byddwn yn glir ar flaenoriaethau llesiant ymhob un o ardaloedd y Cyngor ac yn dechrau ystyried sut fyddwn ni'n siapio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu'r model o hybiau cymunedol ar draws y sir er mwyn darparu ystod eang o gyfleoedd llesiant i oedolion ag anableddau dysgu yn eu cymunedau lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

3. Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae recriwtio i'r maes gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ond mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Rydym wedi bod yn ymdrechu i geisio deall yn well yr her sy'n bodoli ar draws y maes ac mewn ymateb i hynny datblygwyd rhaglen waith sy'n ceisio cyfarch rhai o'r pryderon. Bydd y gwaith o sefydlu trefn darparu gofal cartref newydd yn effeithio'n bositif ar elfennau megis cyflogau staff rheng flaen y sector breifat, hyd cytundebau gwaith a hybu llwybrau gyrfa'n y maes.

Y themâu fydd yn derbyn sylw dros y flwyddyn sydd i ddod fydd Amodau a Thelerau Gwaith, Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu, Delwedd a Phroffil Swyddi'r Maes, a Chyfathrebu a Marchnata.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Blaenoriaeth Gwella 7
Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni amrediad eang o weithgareddau, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth sydd gennym. Ond nid da lle gellir gwell, rydym yn cydnabod fod yna enghreifftiau lle nad ydym yn edrych ar bethau drwy lygaid ein trigolion bob tro, ac mae angen sicrhau fod hynny'n digwydd ymhob man o fewn y Cyngor.

Nid yw hynny yn golygu gwneud pob dim i bawb wrth gwrs, gan nad yw adnoddau yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'n golygu ein bod yn blaenoriaethu'r pethau hynny sydd bwysicaf i'n cymunedau, ac yn sicrhau bod yr adnoddau prin sydd gennym yn cyfrannu at wneud yr hyn sydd bwysicaf i bobl Gwynedd (gan dderbyn y bydd y blaenoriaethu, yn anochel, yn golygu peidio â chyflawni dyheadau pawb).

Mae'r pwyso a mesur yma hefyd yn gorfod digwydd ar adeg pan fo'r arian sydd ar gael i wasanaethau yn lleihau'n sylweddol. Yn hynny o beth, bydd angen sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r pethau pwysicaf.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Arfogi Unedau i roi "Ffordd Gwynedd" ar Waith
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai **anghenion pobl Gwynedd** sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaethau hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen. Pwrpas y prosiect hwn felly fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Mae'r Strategaeth Ffordd Gwynedd wreiddiol a gyhoeddwyd yn Hydref 2015 wedi dod i ddiwedd ei hoes. Cymeradwywyd Cynllun Ffordd Gwynedd ar ei newydd wedd yn ystod 2019/20.

I'r dyfodol byddwn felly'n gweithredu rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd, sy'n cynnwys cynllunio'r gweithlu, cyswllt â'r cwsmer, ac amodau gwaith a herio perfformiad fel rhai o'i prif flaenoriaethau.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.

Blaenoriaeth Gwella 8
Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 bu i'r Cyngor ystyried cynnig yn ymwneud â newid hinsawdd ac fe benderfynwyd y dylid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddem yn gwneud hyn drwy:

- Ddatgan Argyfwng Hinsawdd;
- Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon;
- Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon;
- Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i leihau allyriadau carbon;
- Galw ar Lywodraethau Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wynedd ddi-garbon erbyn 2030.

1. Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd

Ers Mawrth 2019 mae'r Cyngor wedi bod yn mesur yr holl gamau yr ydym eisoes yn eu cymryd i leihau ein ôl-troed carbon ac i baratoi ein cymunedau ar gyfer ymateb i newidiadau hinsawdd i'r dyfodol. Buom hefyd yn ymchwilio i ddulliau newydd arloesol y gallwn eu mabwysiadu i'r dyfodol, nid yn unig fel Cyngor ond ar draws cymunedau Gwynedd, ac yn dechrau ar y broses o ymgynghori ar y syniadau hynny ac unrhyw syniadau eraill y gallem fod wedi eu methu.

Yn 2020/21 byddwn yn cyhoeddi a gweithredu ar Gynllun Ymateb i Newid Hinsawdd fydd yn adeiladu ar y camau yr ydym eisoes yn eu cymryd i leihau ôl-troed carbon er mwyn sicrhau ein bod yn uchafu cyfraniad y Cyngor a'r sir wrth ymateb i'r argyfwng. Bydd gwireddu'r **Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd** yn gyfrifoldeb ar bob un o adrannau'r Cyngor a bydd angen i ni sicrhau bod ein trefniadau mewnol ein hunain yn gadarn yn eu lle cyn i ni symud ymlaen at weld sut y gallwn gydweithio â phartneriaid eraill.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

Strategaeth Ariannol

Bydd y Gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2020 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru ceisio cyflawni'r holl Flaenoriaethau Gwella uchod, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau.

Mae'r setliad grant yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21 yn decach nac a fu mewn blynyddoedd diweddar, ac yn cyfarch y lefel chwyddiant oddeutu £8m, ond nid yw'n cyfrannu at y cynnydd sylweddol mewn galw am wasanaethau sydd oddeutu £5m ychwanegol, yn bennaf ym maes gofal cymdeithasol.

Ar ôl gorfod darganfod £65m o arbedion dros y 12 mlynedd ddiwethaf (2008 – 2020), drwy gyfuniad o wireddu £2m o arbedion effeithlonrwydd pellach a chodi lefel y Dreth Cyngor 3.9% erbyn 2020/21, rydym yn amddiffyn gwasanaethau i bobl Gwynedd ac yn anelu i gyfarch y materion newydd hynny sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Wrth lunio Cyllideb y Cyngor erbyn 2020/21, a'r strategaeth ariannol tymor canol 2020/21 – 2022/23 a fydd yn cael eu chytuno yn haf 2020, rhoddir ystyriaeth briodol i'r blaenoriaethau a nodir uchod.

Gellir gweld Cyllideb y Cyngor yn llawn ar safle we'r Cyngor drwy ddilyn y ddolen hon –

www.gwynedd.llyw.cymru/strategaethariannol